

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n
Dysgu**

**a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron / o bell trwy gynhadledd fideo ar 08 Mehefin 2023**

YN BRESENNOL; Y Cyngorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), y Cyngorwyr Euros Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Eryl Evans, Elizabeth Evans, Paul Hinge, Chris James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Mark Strong

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Wyn Thomas (Aelod o'r Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol:- Dysgu Gydol Oes a Phrif Swyddog Addysg, Mr Clive Williams , Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion, Mrs Anwen Orrells, Arweinydd Strategol Partneriaeth Addysg Cymru, Mr Gareth Lanagan, Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion, Mrs Angharad Behnan, Prif Seicolegydd Addysg, Miss Lowri Evans, Rheolwr Corfforaethol- Cymorth Cynnar Porth Cymorth Cynnar, Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau

(10:00am-11:55am)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cyngorydd Marc Davies ynghyd â Ms Gillian Evans, Rheolwr Corfforaethol - Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Lles a Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion am na allent fynychu'r cyfarfod.

2 Personal

Croesawodd y Cadeirydd a'r Aelod o'r Cabinet Mrs Elen James a Mr Clive Williams i'w cyfarfod cyntaf yn eu rolau newydd. Llongyfarchwyd hefyd yr holl ddisgyblion a gymerodd ran yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri a rali'r CFFl yn Felin-fach

**3 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)
Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

4 Adroddiad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC)

Croesawodd y Cadeirydd Arweinydd Strategol PACC a'r Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion i'r Cyfarfod i roi cyflwyniad ar adroddiad Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC). Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Pwrpas
- Y strwythur a threfniadau llywodraethu ar draws awdurdodau lleol
- Cyllid
- Gwerthusiad o waith PACC
- Blaenoriaethau 2022 – 2023
- Yr ystod o ddysgu proffesiynol a'r cymorth a gynigir
- Cynllunio ar gyfer 2023 – 2024
- Chwe Amcan Cyffredinol ar gyfer Addysg Genedlaethol a'r Iaith Gymraeg
- Wyth Ffactor Gyfrannol – fel a osodwyd yn rhan 1 o'r Grant Consortia Rhanbarthol ar gyfer 23/24
- Blaenoriaethau 2023 – 2024
- Camau Nesaf

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

5 Arolygiadau Estyn , tymor yr Hydref 2022 a thymor y gwanwyn, 2023

CYTUNWYD i nodi'r Arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn ystod tymor yr Hydref 2022 a thymor y Gwanwyn 2023. Llongyfarchwyd pawb a gymerodd ran.

6 Canllawiau Pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau- model cymorth cynhwysol

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Canllawiau Pontio ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau: model cymorth cynhwysol. Roedd y canllawiau wedi'u cyflwyno er mwyn darparu gwybodaeth ac arweiniad i ysgolion, lleoliadau a cholegau ar drefniadau pontio a chymorth cynhwysol effeithiol. Byddai'r canllawiau'n rhannu arferion da gan ddarparu arweiniad effeithiol, er mwyn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD i argymhell i'r Cabinet :-

- (i) mabwysiadu cynnwys y canllawiau pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau Ceredigion; a
- (ii) datblygu cysondeb gweithredu a phontio llyfn ar gyfer plant a phobl ifanc trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion, gan eu galluogi i gyrraedd eu potensial.

7 Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (17.03.23)

CYTUNWYD i nodi'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd.

8 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor fel rhai cywir.

Materion sy'n Codi
Dim.

9 I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23

CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith ddrafft fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol

- (i) nodi bod adroddiad yr adolygiad ôl-16 yn cael ei ohirio tan gyfarfod mis Medi;
- (ii) nodi, fel y cytunwyd yn flaenorol yn y cyfarfodydd diwethaf yn craffu ar y gyllideb, pe bai cais am wybodaeth ychwanegol am unrhyw agwedd ar y gyllideb, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno; yn unol â hynny, a
- (iii) rhoddir adroddiad o'r data ar ganlyniadau TGAU a Safon Uwch yng nghyfarfod mis Medi yn amodol ar eglurhad ar y data a fyddai ar gael gan y Rheolwr Corfforaethol - Atebolrwydd a Chynnydd

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____